OEAP

Welsh Council for Outdoor Learning
Cyngor Cymru ar Gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored



# Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol





# Braslun

Mae 'Dysgu Awyr Agored' yn fath o ddysgu sydd:

- â'r awyr agored yn rhan canolog ohono
- yn agored i bawb
- yn defnyddio profiad o'r amgylchedd naturiol fel modd i ddysgu a datblygu gwybodaeth a sgiliau, agweddau at fywyd ac ymddygiad
- yn gallu cynnwys elfennau anturus a heriol
- yn gallu cynnwys preswylio am gyfnod oddi cartref
- yn aml ag agwedd gorfforol iddo
- yn meithrin parch ac yn cysylltu pobl â'r amgylchedd naturiol
- yn cael ei ddisgrifio'n aml fel profiad cofiadwy a hwyl

Mae Dysgu Awyr Agored yn cynnwys pum thema craidd:

1. **Cymryd rhan**
2. **Hyder a llwyddiant**
3. **Gwahaniaethu a chynnydd**
4. **Delio'n bwyllog â rheoli risg**
5. **Treulio cyfnod preswyl oddi cartref**

Mae'r Canllaw'n darparu amlinelliad eglur o'r budd sydd i'w gael o ddysgu ac addysgu yn yr amgylchfyd naturiol. Mae o wedi ei ysgrifennu gyda'r bwriad o'ch helpu chi i werthuso a mynd ati i wella, neu wella ymhellach, ansawdd eich dysgu awyr agored. I gefnogi hyn mae deg deilliant allweddol wedi eu llunio ynghyd ag ystod o ddangosyddion ar gyfer pob un; mae posib defnyddio'r dangosyddion i gefnogi gwaith gwella ansawdd dysgu awyr agored o bob math. Fe hoffen ni nodi hefyd bod gwaith o'r fath yn fwy effeithiol o'i wneud mewn partneriaeth â phobl a chyrff eraill cysylltiedig â'r maes.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gyda'i gilydd yn darparu deddfwriaeth gyfoes ar gyfer gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Dysgu Awyr Agored yn cyfrannu at bob un o 7 nod lles y ddeddfwriaeth yma ac yn darparu "cyfleoeodd a gweithgareddau sy'n ehangu gorwelion o fewn a thu hwnt i amgylchedd ddysgu draddodiadol yr ystafell ddosbarth." [1]

# Dyfodol llawn llwyddiant

## 4 amcan cwricwlaidd

Fe ddylai cwricwlwm Cymru amcanu at ddatblygu plant a phobl ifanc i fod: > yn ddysgwyr uchelgeisiol, medrus, parod i ddysgu drwy gydol eu bywyd > yn gyfranwyr mentrus, creadigol, parod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith > yn ddinasyddion gwybodus, egwyddorol o Gymru a'r byd > yn unigolion iach, hyderus, parod i fyw bywyd yn ei lawnder fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

**I'w wireddu ↓ drwy**

## 6 maes profiad dysgu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y celfyddydau mynegiannol | Y dyniaethau | Iaith, llythyrennedd a chyfathrebu | Gwyddoniaeth a thechnoleg | Iechyd a lles | Mathemateg a rhifedd |


**Yn byw ↑ o fewn**

## 3 sgil traws-gwricwlaidd

| | | |
|---|---|---|
| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd ddigidol |

Sgiliau ehangach: creadigrwydd; meddwl beirniadol a datrus problemau; effeithiolrwydd personol; cynllunio a threfnu.

Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol © Hawlfraint 2018 y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP). Caniateir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon i bwrpasau anfasnachol a hyfforddiant ar yr amod bod ffynhonnell y darnau dethol hynny'n cael ei chydnabod.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Beth yn union ydi ‘dysgu awyr agored’? | 5 |
| Pobl ifanc yn cymryd rhan | 6 |
| Defnyddio’r Canllaw i wella ansawdd dysgu awyr agored | 8 |
| Dysgu awyr agored o ansawdd uchel – y themâu a’r deilliannau | 10 |
| Creu gweledigaeth | 12 |
| Gweithredu’r weledigaeth | 12 |
| Ysbrydoli pobl ifanc i ddysgu ac i gyrraedd nodau | 13 |
| Helpu pobl ifanc i ddysgu ac i gyrraedd nodau | 13 |
| Deilliant 1 – mwynhad | 14 |
| Deilliant 2 – hyder a chymeriad | 15 |
| Deilliant 3 – iechyd a lles | 16 |
| Deilliant 4 – ymwybyddiaeth gymdeithasol ac emosiynol | 17 |
| Deilliant 5 – ymwybyddiaeth o’r amgylchedd | 18 |
| Deilliant 6 – sgiliau gweithgaredd | 19 |
| Deilliant 7 – datblygiad personol | 20 |
| Deilliant 8 – sgiliau bywyd | 21 |
| Deilliant 9 – cynnydd mewn cymhelliad ac awydd i ddysgu | 22 |
| Deilliant 10 – ehangu gorwelion | 23 |
| Gwella ansawdd drwy gydweithio | 24 |
| Crynodeb | 26 |
| Gwybodaeth bellach | 28 |
| Rhestr gyfeiriol | 29 |



## Diolchiadau

Mae’r Canllaw yn ddiweddariad o ddogfen ‘Addysg Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol (High Quality Outdoor Education)’ Cyngor Addysg Awyr Agored Lloegr (yr English Outdoor Council) ac mae ein diolch yn fawr i aelodau’r Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored a luniodd y ddogfen wreiddiol. Fe hoffem ni hefyd ddiolch yn fawr i’n partneriaid allweddol yng Nghymru, sef Panel Ymgynghorwyr Awyr Agored (OEAP) Cymru, Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Awyr Agored (AHOEC) Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwobr John Muir, Parciau Cenedlaethol Cymru, y Cyngor Astudiaethau Maes, Menter Iaith Conwy, Urdd Gobaith Cymru, Sefydliad Dysgu Awyr Agored (IOL) Cymru, RSPB Cymru, Hyfforddiant Mynydda Cymru, Ysgol Fflint Gwynedd a chynrychiolwyr y gweithgor, am eu hamser yn diweddaru’r ddogfen a’i gwneud yn berthnasol i Gymru.

Mae’r ddogfen wedi ei chyhoeddi gan Banel Ymgynghori Awyr Agored (OEAP) Cymru gyda chefnogaeth Cyngor Addysg Awyr Agored Cymru.

Mae’r cyhoeddwyr yn dymuno diolch i’r Cyngor Astudiaethau Maes, y ‘Field Studies Council’, am eu cefnogaeth i’r gwaith o ddylunio ac argraffu’r Canllaw.

Mae’r cyhoeddwyr yn dymuno diolch hefyd i bawb roddodd ganiatâd i ddefnyddio lluniau o’u heiddo yn y Canllaw gwreiddiol a’r fersiwn ddiwygiedig, yn cynnwys Cymdeithas Penaethiaid y Canolfannau Addysg Awyr Agored (Association of Heads of Outdoor Education Centres), y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, Cymdeithas y Sgowtiaid (Scout Association), y Cyngor Astudiaethau Maes, Cymdeithas Prydeinig y Darparwyr Gweithgareddau (British Activity Providers Association), Ymddiriedolaeth y Fforwyr Ifanc (Young Explorers’ Trust) David Florence (enillydd dwy fedal arian yng nghystadleuaethau canŵ slalom dynion C-1 ac C-2 y Gemau Olympaidd), Phil Stubbington, Jenny Wilson ac Ymddiriedolaeth John Muir.



# Cyflwyniad

**Mae plant ym Mhrydain wedi eu breinio ers blynyddoedd ag addysg awyr agored, ac mae effaith llesol yr addysg hwnnw ar ddatblygiad pobl ifanc yn effaith sydd wedi ei gydnabod yn eang.**

Mae'r Canllaw yma'n addasiad ar gyfer Cymru o ganllawiau blaenorol gyhoeddwyd gan Gyngor Awyr Agored Lloegr. Cafodd ei gynhyrchu i ymateb i'r cynnydd sydd wedi bod yn y gydnabyddiaeth gyffredinol o werth cyfraniad yr awyr agored i ddatblygiad plant a phobl ifanc, ac yn y dystiolaeth sy'n cefnogi'r ymwybyddiaeth honno. Ychwanegwyd at y ddogfen wreiddiol, a defnyddiwyd y term 'dysgu awyr agored' yn lle 'addysg awyr agored' er mwyn cydnabod pwysigrwydd profiadau mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn ogystal â'r profiadau sy'n gysylltiedig ag addysg ffurfiol.

## Y Canllaw

Yr amcan wrth lunio'r Canllaw yma ydi:

- cynnig amlinelliad eglur o fudd a deilliannau dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol
- adnabod a gwerthuso'r hyn ydi dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol
- rhoi sylw penodol i ddulliau cyflwyno dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol – disgrifio beth ydi o a sut i'w wneud o
- amlygu lle gall dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fod o gymorth i gyflwyno Cwricwlwm Cymru

Mae'r Canllaw wedi ei fwriadu ar gyfer:

- y bobl hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â dysgu pobl ifanc yn yr awyr agored – athrawon ysgol a'u staff cynorthwyol, gweithwyr ieuenctid, arweinwyr grwpiau ieuenctid, darparwyr, hyfforddwyr a rhieni
- y bobl hynny sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau dylanwadol, ac sy'n dymuno gwybod mwy ynglŷn â budd ac effaith dysgu awyr agored a'i gyfraniad at sefydlu patrwm ymddygiad cadarnhaol ar gyfer y dyfodol
- y bobl hynny sy'n rheoli ac yn monitro dysgu awyr agored, yn cynnwys prifathrawon, rheolwyr gwasanaethau ieuenctid, penaethiaid a rheolwyr canolfannau awyr agored, arweinwyr grwpiau ieuenctid a chlybiau awyr agored/amgylcheddol, ac ymgynghorwyr addysg/dysgu awyr agored

Mae'r Canllaw wedi ei gyflwyno bob yn adran, yn y drefn ganlynol:

- adran gyflwyno – sy'n esbonio sut i ddefnyddio'r canllaw i werthuso a gwella ansawdd dysgu awyr agored
- trosolwg o'r ddarpariaeth – sut i ysbrydoli a galluogi pobl ifanc i gyrraedd nodau drwy ddysgu yn yr awyr agored
- datganiad yn nodi deg deilliant dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol, ynghyd â'r pump thema traws-berthnasol – sef modelau neu agweddau o ddysgu sy'n berthnasol ar draws y maes, wedi eu cywain o waith ymchwil cyfredol ac ymarferwyr profiadol
- rhestr o ddangosyddion ar gyfer pob deilliant wedi eu llunio gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored er mwyn darlunio'r hyn y dylid ei ddisgwyl i bobl ifanc ei gyflawni yn sgil eu profiadau dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol
- trosolwg o gysylltiadau a phartneriaethau effeithiol – sut gall ysgolion, grwpiau ieuenctid, canolfannau a chlybiau awyr agored gydweithio i gyflwyno ansawdd rhagorol

## Pam dysgu yn yr awyr agored? Tystiolaeth i'w gefnogi

Er mwyn cael yr effaith orau posibl ar blant a phobl ifanc, mae angen iddyn nhw gael profiadau dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol sy'n niferus, yn barhaus, ac yn gynyddol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae swm sylweddol o dystiolaeth wedi ei gasglu i gefnogi gwerth gweithgareddau awyr agored mewn perthynas â datblygiad person ifanc. Wele isod peth o'r syniadaeth gyfredol ynghylch hyn.

## Cynnydd – o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu gydol oes

Ym mlynyddoedd cynnar eu datblygiad 'mae'r awyr agored yn lle i blant symud yn rhydd a dirwystr; mae symud, ynghyd â chwarae, wedi ei ddisgrifio fel un o ddulliau dysgu mwyaf naturiol a grymus plant ifanc... pan fyddan nhw allan yn yr awyr agored fe all plant greu ar raddfa ehangach, cael profiad uniongyrchol o'r byd naturiol a'i archwilio drostyn nhw eu hunain.'[2]





Ar ben hynny, 'mae digonedd o dystiolaeth i gefnogi'r effaith gadarnhaol mae treulio amser mewn amgylchedd naturiol yn ei gael ar iechyd a ffyniant emosiynol plant'.[3]

Rydym ni'n gwybod bod 'plant sy'n gorfforol weithgar yn perfformio'n well yn yr ysgol ac wedyn. Mae angen datblygu 'llythrennedd' corfforol sylfaenol yn gynnar ym mywyd plentyn a'i ategu drwy brofiadau cadarnhaol yn ystod ei blentyndod. Rydym ni'n gwybod bod plant sy'n mwynhau gweithgareddau corfforol ac sy'n datblygu'r sgiliau sylfaenol perthnasol yn gynnar yn eu bywydau'n fwy tebygol o fod yn gorfforol weithgar pan yn hŷn'.[4]


Mae ymwneud ag ystod eang y profiadau sydd i'w cael drwy ddysgu awyr agored yn rhoi'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a chyffrous ac i ddatblygu sgiliau ac ymddygiad fydd o fudd iddyn nhw fel oedolion. Yn wir mae sawl un o'n campau Olympaidd mwyaf llwyddiannus wedi deillio o weithgareddau antur awyr agored, ac yn gallu ysbrydoli pobl ifanc i gyrraedd y lefelau uchaf posibl mewn camp.

## Cyrhaeddiad

Does dim dwywaith nad ydi profiadau dysgu awyr agored, o'u plethu'n effeithiol i mewn i raglen ddysgu a gynlluniwyd yn dda, yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc. Yn hyn o beth, mae Estyn yn cydnabod bod "gan ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel weledigaeth a brwdfrydedd sy'n sicrhau digonedd o gyfleon i'w disgyblion ymarfer eu cyrff a dysgu yn yr awyr agored. Mae'r ysgolion hyn yn credu bod cyfleon o'r fath yn arwain at lefelau uchel o ymrwymiad disgybl, sydd yn ei dro'n arwain at safonau uchel. Mae eu hathrawon yn canfod ffyrdd llawn dychymyg i'w disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau mathemateg ar draws y cwricwlwm drwy ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored."[5]

'Mae tystiolaeth ymchwil rymus yn dangos mor fawr ydi'r elw addysgol sydd i'w gael o addysgu a dysgu gwyddoniaeth drwy waith maes'.[6] Mae'r gallu i wneud gwaith maes yn sgil hanfodol mewn Daearyddiaeth, ac mae o wedi ei ddangos bod plant sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwaith maes syml yn 'sgorio'n uwch mewn profion llythrennedd na phlant oedd ddim'[7] yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu awyr agored o'r fath.

Mae gwaith ymchwil yn dangos hefyd bod modd codi lefelau gallu llythrennedd a rhifedd disgyblion drwy ddysgu yn yr awyr agored. Fe ddangosodd prosiect ymchwil yn yr Alban fod 'plant ar raglen 12 wythnos (2 awr yr wythnos) ar y blaen, ar gyfartaledd, o 6 mis mewn Rhifyddeg Pen ac o 2 fis mewn Mathemateg Cyffredinol o'u cymharu â phlant tebyg mewn ysgolion grŵp safonol'.[8]



# Ynglŷn â'r Canllaw

## Iechyd a lles

Mae ymchwil yn dangos bod ar blant angen y cyfle i fod allan yn yr awyr agored ac mai allan mae llawer o blant yn hoffi bod orau. Drwy roi'r rhyddid i blant fod allan, mi fyddwn ni'n atgyfnerthu eu ffyniant emosiynol, sydd yn ei dro'n eu galluogi nhw i gofleidio'r byd naturiol drostyn nhw eu hunain, fel bodau annibynnol.[9] Dydi hi ddim yn syndod felly bod rhaglenni antur awyr agored yn cael eu gweld yn 'erfyn addawol ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles pobl ifanc'.[10] 'Mae cysylltiad rhwng iechyd a lles o safon uchel a'r gallu i weithredu'n gadarnhaol, sy'n cynnwys, ar ben disgwyliad einioes gwell ac iechyd corfforol da, y gallu i feddwl yn greadigol, gallu cynhyrchiol, perthynas dda â phobl eraill, a chadernid yn wyneb anawsterau'.[11]

## Gwydnwch emosiynol a chymdeithasol

Mae profiad cynyddol o ddysgu yn yr awyr agored yn fodd i bobl ifanc feithrin gwydnwch. O ddechrau drwy chwilio'r byd y tu allan i'w hystafell ddosbarth, fe allen nhw symud ymlaen at dreulio eu noson gyntaf oddi cartref, ac yn ddiweddarach at deithiau ac ymweliadau mwy anturus a heriol yn y DU a thramor. Drwy hynny maen nhw'n datblygu sgiliau ac agweddau sy'n help i'w datblygu'n bersonoliaethau crwn, iach a bodlon. Mae dysgu yn yr awyr agored yn cynnig



cyfle i ddatblygu gwydnwch emosiynol a chymdeithasol, yn ategu deilliannau dysgu ehangach ac yn datblygu ystod diddordebau'r person ifanc.[12]

Mae cyfraniad datblygu 'cymeriad a gwydnwch' i gyfleoedd bywyd person ifanc yn cael ei ystyried yn un hanfodol bwysig; 'fe all y 'sgiliau meddal' ansylweddol yma arwain at ganlyniadau 'caled' sylweddol'. Bydd canlyniadau o'r fath yn cael eu gweld yn aml fel deilliannau nodweddiadol o ddysgu awyr agored, ac yn sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd – yn y gwaith ac yn y gymdeithas ehangach.[13]

## Rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol

Drwy greu empathi a meddylfryd o ofal tuag at yr amgylchedd naturiol, fe all cyfraniad dysgu awyr agored at feithrin ymddygiad ac agweddau cadarnhaol mewn pobl ifanc tuag at gadwraeth a chynaliadwyedd fod yn un amlwg a sylweddol.[14] Mae o wedi ei nodi hefyd fod amser dan arweiniad mewn amgylcheddau awyr agored yn gallu annog cyrhaeddiad ac agwedd gadarnhaol, datblygu sgiliau asesu risg, hyrwyddo iechyd a lles, ac ysgogi empathi â'r amgylchedd sydd yn ei dro'n hyrwyddo ymddygiad cynaliadwy.[15]

## Profiad o gyfnod preswyl oddi cartref

Mae'r profiad preswyl yn rhan graidd a thraddodiadol o ddysgu awyr agored. Mae profiadau o'r math yma'n 'gwneud cyfraniad syndod o rymus i ddatblygiad person'[16] ac mae'n 'ymddangos bod profiadau dysgu o ansawdd rhagorol yn ystod cyfnodau preswyl yn hybu cyrhaeddiad'.[17] Mae cyfnodau preswyl o ansawdd rhagorol yn fwyaf effeithiol yng nghyswllt gwella deilliannau pobl ifanc pan eu bod nhw'n gynyddol adeiladol ac wedi eu cyflwyno fel rhan integredig o raglenni gwaith sefydlog. Mae'r effaith yn gryfach fyth os ydi staff a phobl ifanc y cyfnod preswyl wedi bod yn rhan o broses cynllunio a chyflwyno gwaith y cyfnod preswyl. [18]

Mae o wedi ei gydnabod hefyd bod cynnydd sylweddol yn gallu bod mewn 'gwydnwch seicolegol yn sgil cyfnod preswyl seiliedig ar antur awyr agored' a bod 'profiadau cyfnodau preswyl yn gallu hyrwyddo twf ym mhersonoliaeth y myfyriwr. Mae twf o'r fath yn cynnwys (1) y graddau y bydd myfyrwyr yn teimlo bod eu bywyd a'i ddigwyddiadau cysylltiedig dan eu rheolaeth, (2) eu gallu i weithredu'n annibynnol, a (3) eu gallu i ddatrys problemau'.[19]

Fe ddylai mynediad i brofiadau mor bwysig â hyn fod yn un o ddisgwyliadau pob person ifanc.











# Beth yn union ydi ‘dysgu awyr agored’?

**Wrth gyfeirio at ‘ddysgu awyr agored’ mae’r Canllaw yn golygu math o ddysgu:**

- **sydd â’r awyr agored yn rhan ganolog ohono**
- **yn agored i bawb**
- **yn defnyddio profiad o’r amgylchedd naturiol fel modd i ddysgu gwybodaeth, sgiliau, agweddau at fywyd, ac ymddygiad**
- **yn cyfrannu at fywiogrwydd y diwylliant Cymreig a ffyniant yr iaith Gymraeg**
- **yn aml yn cynnwys elfen anturus, heriol**
- **yn aml yn cynnwys preswylio am gyfnod oddi cartref**
- **yn aml ag agwedd gorfforol iddo**
- **yn datblygu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a gofal o’r amgylchedd naturiol**
- **yn cael ei ddisgrifio’n aml fel profiad cofiadwy a hwyl**

Fe all profiad dysgu awyr agored fod ar dir yr ysgol neu ganolfan awyr agored, mewn lleoliad gerllaw’r ysgol neu ganolfan, neu yn ystod cyfnod preswyl oddi cartref yn y DU neu dramor. Fe all y profiad gynnwys campau antur cydnabyddedig, er enghraifft canwio, dringo, cerdded mynydd, cyfeiriannu a hwylio. Fe all fod ar ffurf gweithgaredd hamdden, er enghraifft, gwersylla neu gerdded mynydd. Neu fe all fod yn weithgaredd a drefnwyd i bwrpas addysgol penodol, er enghraifft, gwaith maes, addysg arfordir neu goedwig, gwaith llwybrau, sgiliau’r gwyllt (bushcraft), her menter (initiative challenge), a chyrsiau rhaff. Neu fe all fod yn ddefnydd o’r awyr agored fel amgylchedd ar gyfer dysgu neu arbrofi gyda’r amcan o beri datblygiad gwybyddol (cognitive) neu anwybyddol (non-cognitive).



Mae dysgu awyr agored yn bennaf yn fodd i addysgu a dysgu drwy weithgareddau o’r math yma a rhai tebyg, ond hefyd i roi profiad ehangach o fyd yr awyr agored. Mae’n bwysig bod pawb sydd ynglŷn ag addysg a gofal plant yn cydnabod gwerth a grym y cyd-destun dysgu ac addysgu yma. Mae mwy a mwy o ymchwil yn dangos mor fuddiol i blant ydi cysylltu â byd natur a mwynhau profiadau yn yr awyr agored. Mae ei effaith ar ddysgu, datblygiad, iechyd a lles y plant yn gallu bod yn un hirdymor.[20] Y llinyn gyswllt rhwng pob un o’r rhain ydi’r ffocws ar ddeilliannau cadarnhaol yn y maes datblygiad personol a chymdeithasol. Rhaid cofio hefyd bod y profiadau’n werthfawr yn eu rhinwedd eu hunain, drwy fod yn brofiadau cofiadwy ac, yn amlach na pheidio, yn andros o hwyl.

Mae’r Canllaw yma’n canolbwyntio ar sut i gyflwyno dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol – yr hyn ydi hynny a sut i’w wneud o. Mae o’n adnabod ac yn cydnabod bod addysg awyr agored yn rhywbeth sy’n digwydd o fewn a thu allan i’r sector addysg ffurfiol, drwy athrawon ysgol a darparwyr gweithgareddau awyr agored, ond hefyd drwy wasanaethau ieuenctid a chyrff ieuenctid gwirfoddol, trwy amrywiaeth fawr o glybiau awyr agored sy’n darparu ar gyfer pobl ifanc, ac hefyd gyda grwpiau cyfoed a theuluoedd.



# Pobl ifanc yn cymryd rhan

**Mae'r canllaw yma'n cydnabod bod dysgu awyr agored pobl ifanc yn digwydd mewn nifer o wahanol gyd-destunau – mewn ysgolion, mewn grwpiau, cyrff neu raglenni ieuenctid, mewn canolfannau addysg/gweithgareddau awyr agored, mewn clybiau amgylcheddol/awyr agored, a chyda'i cyfoedion a'u teuluoedd. Mae'r budd sydd i'w gael o brofiadau niferus, parhaus a chynyddol o weithgareddau awyr agored yn anferth. Mae'r profiadau yma i'w cael mewn sawl gwahanol ffordd, rhai gyda nodau sy'n debyg neu'n gorgyffwrdd, a chyda'r un llinyn gyswllt yn rhedeg drwyddyn nhw, sef datblygiad personol a chymdeithasol, iechyd a lles, ac effeithiolrwydd personol pobl ifanc.**



**Ysgolion** Mae cyfraniad ysgolion i'r proses o gyflwyno addysg awyr agored o ansawdd rhagorol yn allweddol, o ran gwaith yn yr ystafell ddosbarth a thu allan iddi. Fe allen nhw fod yn trefnu gweithgareddau rheolaidd yn yr awyr agored sy'n cysylltu â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae ysgolion yn aml yn cynnig gweithgareddau awyr agored drwy glybiau ysgol ac yn trefnu ymweliadau diwrnod a phreswyl â darparwyr gweithgareddau/addysg awyr agored.

**Gwobrau Cenedlaethol** Mae gwobrau awyr agored e.e. Gwobr John Muir a Gwobr Dug Caeredin yn cael eu cynnig gan amrywiaeth o wahanol gyrff a sefydliadau.

**Gwasanaethau a grwpiau ieuenctid**
Mae'r rhain, yn y sectorau statudol a gwirfoddol, yn cynnig llawer o gyfleoedd dysgu awyr agored fel rhan o'u cwricwlwm, rhaglenni ieuenctid a rhaglenni chwarae, ac mae prif ffocws llawer ohonyn nhw ar ddatblygiad personol a chymdeithasol. Mae traddodiad o hyn i'w gael yn arbennig yn y cyrff ieuenctid gwirfoddol. (I bwrpasau'r canllaw yma bydd 'gwasanaethau ieuenctid' a 'chyrff ieuenctid' yn golygu'r un peth). Mae gan grwpiau ieuenctid ac ysgolion fel ei gilydd y gallu i fesur dros amser yr effaith gaiff dysgu awyr agored ar ddatblygiad person ifanc.

**Darparwyr addysg/gweithgareddau awyr agored** Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr dan reolaeth awdurdodau lleol, ysgolion neu grwpiau o ysgolion, cyrff gwirfoddol neu elusennol, a'r sector fasnachol. Mae gan bob un o'r rhain y potensial i gael effaith sylweddol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc; dyma, i rai, ydi eu prif bwrpas. Mae darparwyr o'r fath mewn lle da i ddod â'u harbenigedd yn y maes i faes dysgu awyr agored, cyfraniad sydd ar ei fwyaf effeithiol pan fydd darparwyr yn cydweithio'n agos â'u cwsmeriaid, yr ysgolion a'r grwpiau ieuenctid. Mae nifer o ddarparwyr yn cynnig hefyd cyrsiau gweithgaredd, ar gael i unigolion, yn ystod gwyliau ysgol, sy'n gyfle pellach i bobl ifanc gael budd o'r awyr agored.

**Clybiau gweithgareddau awyr agored ac amgylcheddol** Mae'r rhain hefyd yn cynnig profiadau gwerthfawr yn y maes addysg awyr agored i bobl ifanc. Maen nhw'n gallu cynnig amgylchedd sy'n annog cynnydd mewn gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad, tra'n cyfrannu sylweddol at feysydd dysgu ehangach, i dwf personol, ac i fwynhad gydol oes o weithgareddau hamdden.



**Ymweliadau a theithiau tramor** Mae'r rhain yn gyfle, drwy ysgolion, cyrff gwirfoddol a chwmnïau masnachol, i bobl ifanc dreulio cyfnod estynedig ar weithgareddau antur, yn dysgu sgiliau maes gwyddonol lefel uwch, gwaith cymunedol, ac yn datblygu eu gwybodaeth o ddiwylliannau eraill a materion amgylcheddol. Fe all y bobl ifanc ddysgu hefyd am weithio mewn tîm, yn cynnwys sut i reoli risg, ac i ddysgu deall a goddef neu ddelio â chryfderau a gwendidau o'u heiddo eu hunain neu rai eu cyfoedion. Mae ymchwil diweddar yn dangos yn gynyddol bod ymweliadau o'r fath yn arwain at gyrhaeddiad uwch ac at ddatblygu'r math o sgiliau craidd y mae cyflogwyr a phrifysgolion yn chwilio amdanyn nhw yn eu hymgeiswyr.[21]

**Teuluoedd a chyfoedion** Fe all rhain ddylanwadu'n fawr ar agwedd unigolyn a'i gyswllt â'r awyr agored. 'Fe ddangosodd arolwg gan Public Health England a chwmni Disney bod 57% o'r plant a holwyd ganddyn nhw'n fwy tebyg o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol os oedd eu rhieni yn gwneud hefyd.'[22]







## Dechrau arni

Os ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc sydd ddim ar hyn o bryd yn ymwneud â'r awyr agored ac fe hoffech chi gael gwybod sut i ddechrau arni, mae'r rhestr o gyfeiriadau gwe ar dudalen 28 yn lle da i gychwyn.

Fe ddylai bod gan bob ysgol Gyd-gordiwr Ymweliadau Addysgol, ac fe ddylai bod gan yr Awdurdod Lleol Ymgynghorydd Addysg Awyr Agored fydd yn gallu eich cynghori chi ar sut i ddechrau arni. Mae gwefan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored **www.oeap.info** yn adnodd defnyddiol ac yn rhestru'r rhan fwyaf o ymgynghorwyr Awdurdod Lleol Cymru. Mae Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru yn cynrychioli'r sector yng Nghymru, ac yn gweithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r wlad i gefnogi datblygiad a chyflwyno dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae cyrff rheoli'r gwahanol gampau awyr agored a manylion gwahanol gyrff amgylcheddol i'w cael ar wefannau a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol (mae rhestr o'r rhain i'w chael ar dudalen 28).

# Defnyddio'r Canllaw i wella ansawdd dysgu awyr agored

**Mae'r canllaw yma wedi wedi ei lunio i'ch helpu chi i werthuso ac yna mynd ati i wella, neu wella ymhellach, ansawdd dysgu awyr agored.**



Mae pedwar amcan creiddiol i gwricwlwm Cymru, sef bod pob plentyn a pherson ifanc i fod:

- yn **ddysgwr uchelgeisiol, medrus** a pharod i ddysgu drwy gydol ei oes
- yn **berson mentrus a chreadigol, parod i gyfrannu** i fywyd ei gymdeithas a'i waith
- yn **berson egwyddorol a gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinesydd Cymru ei wlad, a'r byd
- yn **unigolyn iach a hyderus**, parod i fyw bywyd yn ei lawnder fel aelod gwerthfawr o'i gymdeithas

Fe all dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol gyfrannu at gyflawni'r pedwar amcan, ac mae'r canllaw yma'n adnodd i ddarparwyr dysgu awyr agored ei ddefnyddio, gan gyd-fynd efallai â'u cwricwlwm/rhaglen eu hunain a fframwaith archwilio Estyn, er mwyn pwyso a mesur ansawdd yr hyn maen nhw'n ei gynnig. Mae dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol yn datblygu gwybodaeth, sgiliau, ac ymddygiad sy'n cyd-fynd â deilliannau dymunol y pedwar amcan. Fe ddylai dysgu awyr agored fod yn rhan naturiol, integredig ac ysgogol o'r cwricwlwm.



Mae'n debyg y bydd gennych chi eisoes, fel ysgol, canolfan neu glwb ieuenctid, brosesau ar gyfer gwerthuso ansawdd eich darpariaeth a chynnydd eich bobl ifanc. Fe all y canllaw yma, o'i ddefnyddio fel rhan o'r proses gwerthuso, helpu sicrhau bod eich gwerthusiad, mewn perthynas â dysgu awyr agored, mor ddibynnol ag sy'n bosibl.

Mae'r camau isod yn un ffordd o fynd ati ond, cyn cychwyn, gair o rybudd.

Mae llawer iawn o ddysgu awyr agored yn dibynnu ar ymrwymiad pobl sy'n rhoi o'u hamser yn hollol wirfoddol neu'n ddi-dâl y tu allan i oriau eu cytundeb gwaith. Os mai cyd-destun felly sydd i'ch sefyllfa chi, fe all fod angen gweithio'n llai ffurfiol, a hynny o leiaf nes bod eich gweithwyr wedi eu hargyhoeddi bod rhoi cyfran o'u hamser gwirfoddol i broses gwerthuso o'r math yma o werth i'r bobl ifanc maen nhw'n eu dysgu.







## Gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd

Mae'r canllaw yn rhoi sylw i'r deg deilliant allweddol ar gyfer dysgu awyr agored sydd wedi eu rhestru isod. Mae'n ddigon posibl bod gennych chi rai ychwanegol o'ch eiddo eich hun.

1 **Mwynhad**
2 **Hyder a chymeriad**
3 **Iechyd a lles**
4 **Ymwybyddiaeth gymdeithasol ac emosiynol**
5 **Ymwybyddiaeth o'r amgylchedd**
6 **Sgiliau gweithgaredd**
7 **Nodweddion personol**
8 **Sgiliau bywyd**
9 **Cynnydd mewn cymhelliad ac awydd i ddysgu**
10 **Ehangu gorwelion**

Ar gyfer pob un o'r deg delliant mae rhestr o ddangosyddion ansawdd ac effeithiolrwydd. Pwrpas y dangosyddion ydi rhoi darlun cyffredinol o ansawdd y dysgu a'r profiadau byddwch chi'n eu darparu. Mae hefyd nifer o themâu cyffredinol, sydd wedi eu disgrifio ar dudalen 10, ac sy'n berthnasol i sawl un (ac weithiau pob un) o'r deilliannau ac i'w hystyried ochr yn ochr â nhw.

1. Edrychwch ar y deilliannau a'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â nhw. Mae rhestr o oddeutu 10 dangosydd ar gyfer pob deilliant. Mae'n bosibl na fydd pob un deilliant yn berthnasol i chi, ond fe ddylai'r rhan fwyaf ohonyn nhw fod ac fe all fod sawl un yn gorgyffwrdd.

2. Byddwch yn sicr o'ch deilliannau allweddol – ystyriwch pam eich bod chi'n gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud.

3. Penderfynwch sut i werthuso'r deilliannau byddwch chi'n eu dewis. Fe all fod yn werthusiad drwy arsyllu, drwy adrodd ac adolygu (debrief and review), o adborth ar ffurf ysgrifenedig neu ddyddiadur digidol gan y rhai sy'n cymryd rhan. Ceisiwch feddwl am y deilliannau fel manylion neu elfennau o'r un proses yn hytrach nag fel eitemau 'ticbocs' unigol.

4. I ba raddau mae eich pobl ifanc yn cwrdd â gofynion y gwahanol ddeilliannau? Fe all fod o gymorth i chi gofnodi canlyniadau'r deg deilliant ar raddfa, tebyg i'r un isod. I gael canlyniad uwch na phwynt hanner ffordd y raddfa, byddai angen i chi fod yn fodlon bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn eich grŵp wedi, neu'n symud tuag at, gwrdd â gofynion y rhan fwyaf o'r deilliannau.

5. Trafodwch fel tîm y gwerthusiadau unigol a cheisiwch greu darlun cyflawn o sefyllfa'r ysgol, neu'r gwasanaeth, canolfan neu glwb ieuenctid. Os ydi rhan fwyaf y gwerthusiadau'n cyrraedd yn uwch na phwynt hanner ffordd y raddfa, mae hynny'n awgrymu eich bod chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol. Pan fyddwch chi'n barnu eich bod chi'n sgorio'n is na'r pwynt hanner ffordd, ond eto'n gweld cynnydd, mae hynny'n awgrymu eich bod chi'n symud tuag at ansawdd uchel.

## Cynnal a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd

Mae'r lefel ansawdd y byddwch chi'n ei gyrraedd yn dibynnu ar:

- ba mor lwyddiannus fydd eich rheolwyr ac arweinwyr wrth lunio gweledigaeth sy'n adnabod budd ac effaith dysgu awyr agored ac wrth weithio i'w wireddu

| Annigonol | Digonol | Rhagorol |
|---|---|---|
| Yn cyflawni 1-2 deilliant | Yn cyflawni 5 deilliant | Yn cyflawni mwy nag 8 deilliant |

- i ba raddau bydd eich athrawon, gweithwyr ieuenctid, hyfforddwyr a staff cynorthwyol yn ysbrydoli ac yn helpu pobl ifanc i ddysgu a llwyddo, a pha mor sicr ydyn nhw ynghylch pam eu bod nhw'n gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud ac o'r deilliannau maen nhw'n gobeithio eu cyflawni
- maint cyfraniad y bobl ifanc i'r gwaith o drefnu a chynllunio eu gweithgareddau, a'u dealltwriaeth o pam eu bod nhw'n ymgymryd â gweithgareddau o'r fath
- i ba raddau mae pobl ifanc, waeth beth y bo'u cefndir ac amgylchiadau, yn gallu cymryd rhan yn eich rhaglen weithgareddau
- effeithiolrwydd y cysylltiadau rhwng ysgolion, canolfannau a chlybiau ieuenctid, darparwyr gweithgareddau a theithiau, o ran hybu i'r eithaf ac ategu deilliannau dysgu'r bobl ifanc

Mae adrannau olaf y canllaw'n amlygu rhai o agweddau'r hyn sy'n nodweddu darpariaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun y pwyntiau uchod.

Dydi'r hyn sy'n cael ei gynnig yma ddim i fod yn efengyl ond yn hytrach yn arf i'ch helpu i adnabod yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud yn dda a'r hyn y gallech chi o bosib ei wneud yn well.

Rhowch gyfnod realistig o amser i chi eich hun ar gyfer gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol ac i rhoi sylw i wella effaith eich darpariaeth yn y meysydd hynny. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, ailadroddwch y gwerthusiad i weld ydi mwy o'ch pobl ifanc wedi symud tuag at gwrdd â gofynion mwy o'r dangosyddion.

Peidiwch ag anghofio mai diben y canllaw ydi gwella ansawdd ac effeithiolrwydd yr hyn fyddwch chi'n ei wneud – waeth o ba lefel y byddwch chi'n cychwyn. Mae llawer iawn o ddysgu awyr agored o ansawdd rhagorol eisoes yn digwydd mewn ysgolion, canolfannau a chlybiau ieuenctid, ac ar deithiau ar hyd a lled y wlad. Bwriad y canllaw ydi cynnig modd i feincnodi, dathlu ac adeiladu ar y gwaith da hwnnw.

# Dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol: themâu a deilliannau

## Pum thema craidd dysgu awyr agored

### 1. Cymryd rhan

Drwy roi cyfle i bobl ifanc brofi campau sy'n wahanol i'r campau traddodiadol, rhai all gynnig her iddyn nhw a'u cyffroi, ond eto'n hawdd cymryd rhan ynddyn nhw – er enghraifft, cerdded neu feicio, neu weithgareddau amgylcheddol megis gwylio adar, fe all pobl ifanc feithrin arfer o fwynhau amrywiaeth o weithgareddau awyr agored all barhau am weddill eu bywydau.

Mae dysgu awyr agored yn cynnig ei hun i fath o fodel dysgu deinamig sy'n addas ar gyfer cyflwyno a chwrdd â gofynion deilliannau buddiol eraill. Mae dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol yn annog pobl ifanc i gyfrannu at broses cynllunio eu gweithgareddau awyr agored ac i fod â'r mwyaf posibl o berchnogaeth drostyn nhw wrth gymryd rhan.

Mae treulio amser yn adolygu neu'n trafod y weithgaredd yn fodd i sicrhau bod deilliannau dysgu'n cael eu pwysleisio, eu hategu a'u cymhwyso i gyd-destun ehangach, ar y pryd ac i'r dyfodol. Mae hyn ynddo'i hun yn un o ddangosyddion dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol.

### 2. Hunanhyder a llwyddiant

Mae dysgu awyr agored yn fodd i herio pobl ifanc i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder. Mae modd hefyd defnyddio cystadleuaeth fel sbardun i ysgogi pobl i wneud eu gorau ac, wedi gwneud hynny, i ymfalchio yn yr hyn maen nhw wedi ei gyflawni. Mae lle pwysig i gydweithio yn hyn i gyd oherwydd ei fod yn dangos bod posib cyflawni mwy drwy weithio gyda'n gilydd na thrwy weithio ar ein pennau ein hunain neu yn erbyn ein gilydd.

Mae dysgu awyr agored hefyd yn cynnig ffyrdd eraill i lwyddo, yn gorfforol a meddyliol, drwy gynnig gweithgareddau lle mae'r unig 'gystadleuaeth' yn gystadleuaeth rhyngoch chi eich hun a'r amgylchedd (e.e. craig neu'r tywydd).

Mae'r math yma o 'gystadleuaeth' yn apelio'n aml i bobl ifanc sy'n ei gael yn anodd cystadlu yn y maes corfforol â phobl eraill.

### 3. Gwahaniaethu a chynnydd

Mae dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol yn rhoi cyfle i bobl ifanc weithio ar lefel sy'n cyd-fynd â'u gallu a'u datblygiad unigol. Mae angen cynllunio gweithgareddau sy'n bosibl eu haddasu i gynnig her ar lefelau gwahanol sy'n addas i wahanol aelodau grŵp, neu sy'n darparu gwahanol rôl i'w wahanol aelodau. Bydd gweithgareddau'n cael yr effaith fwyaf pan fydd cynnydd yn rhan integrol ohonyn nhw – mae modd gweithredu hyn i raddau ac ar lefelau gwahanol.



### 4. Profiad o gyfnod preswyl oddi cartref

Mae cyfnodau preswyl yn gyfle i bobl ifanc brofi bywyd oddi cartref, i ymgymryd â gweithgareddau yng nghwmni eu cyfoedion, ac yn rhan amlwg a chyffredin o ddysgu awyr agored o ansawdd rhagorol.

Fe fu i brosiect 'Learning Away' y Paul Hamlyn Foundation[17] ganfod :

- bod sgiliau a gwybodaeth ddysgwyd drwy raglen gynyddol o gyfnodau preswyl yn magu gwreiddiau ym meddyliau pobl ifanc
- bod deilliannau dysgu cyfnodau preswyl sy'n rhan integredig o raglenni gwaith bobl ifanc, yn well
- bod cael staff ysgol i gynllunio ac arwain cyfnodau preswyl yn ei gwneud yn bosibl trefnu gweithgareddau i gwrdd ag anghenion a nodau dysgu penodol pobl ifanc
- bod deilliannau cyfnodau preswyl sydd wedi eu cynllunio a'u harwain gan bobl ifanc, yn well
- bod y cyfle i gydwneud â phobl ifanc eraill yn rhoi golwg newydd ar fywyd a dysgu
- bod profiadau newydd a chofiadwy, lleol ac ymhellach o adref, yn gallu helpu datblygu gwydnwch

Fe all rhaglen o gyfnodau awyr agored preswyl, neu daith estynedig, gynnig cyfle i bobl ifanc brofi gweithgareddau antur mewn llefydd ac amgylcheddau pell o'u hardal leol, ynghyd â chyfleoedd unigryw i ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol. Mae cyfnodau o'r fath yn aml ymhlith profiadau mwyaf cofiadwy datbygiad person ifanc ac yn gallu arwain at ymrwymiad gydol oes i weithgaredd newydd.



Mae angen monitro cynnydd ac adborth y bobl ifanc er mwyn sicrhau bod heriau newydd ysgogol ar gael iddyn nhw bob amser.

Wrth ddatblygu rhaglenni gweithgaredd mae angen rhoi sylw i adborth y bobl ifanc ar eu cynnydd a'u dealltwriaeth.

## 5. Yr angen i fentro… pwyso a mesur risg yn erbyn budd

Mae her yn rhan bwysig o bob math o ddysgu, yn cynnwys dysgu awyr agored. Mae o'n bwysig hefyd deall gwahanol nodweddion her: y cyfle i elwa; y risg a'r posibilrwydd o golli rhywbeth neu frifo; yr angen i osod nodau'n ofalus; parodrwydd i ymroi a chymryd rhan lawn; cymhwyso'r corff a/neu'r emosiynau i weithgarwch sydd y tu hwnt i'r arferol a'r cyfforddus.

Mae angen felly sicrhau bod pawb sydd ynglŷn â dysgu awyr agored yn ymwybodol o'r angen i weithredu o fewn fframwaith ddiogelwch sicr, un sy'n cynnwys asesiad gofalus o risg a budd y weithgaredd. Mae rheoli diogelwch yn gyfrifoldeb yr arweinwyr a'r hyfforddwyr yn bennaf. Serch hynny, mewn sefyllfa dysgu awyr agored ansawdd rhagorol mae'r bobl ifanc eu hunain yn rhan o'r proses o reoli'r risg - yn ystod y cynllunio, wrth ymgymryd â'r gweithgaredd, ac wrth adolygu/rhoi adborth.

Mae amlinelliad manylach o sut orau i bwyso a mesur y risg a'r budd i'w gael yn llyfr Tim Gill 'Nothing Ventured'[23], llyfr noddwyd gan Gyngor Awyr Agored Lloegr.

Mae rheoli risg yn sgil bywyd yn ei rinwedd ei hun, ac mae ei ddysgu o werth i bobl ifanc mewn llawer agwedd o'u bywyd fel oedolion, yn cynnwys yn y lle gwaith.

## Deg o ddeilliannau allweddol

**Pan fydd ysgolion, clybiau, gwasanaethau a rhaglenni ieuenctid, canolfannau awyr agored, trefnwyr teithiau, a theuluoedd yn darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol, mi fydd y nodweddion canlynol i'w gweld yn eu pobl ifanc:**

- eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn a thrafod gweithgareddau awyr agored, ac yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at her ac antur
- yn elwa o ran eu lles cyffredinol drwy ddatblygu hyder, cymeriad a gwydnwch drwy ymgymryd â gwahanol fathau o her a thrwy lwyddo ynddyn nhw
- yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u gwybodaeth ohonyn nhw eu hunain, ynghyd â'u gwerthfawrogiad o gyfraniadau a llwyddiannau pobl eraill a'u rhai nhw eu hunain
- yn magu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, yn lleol ac yn fyd-eang, ac yn deall pwysigrwydd cadwraeth a datblygu cynaliadwy
- yn dysgu ac yn datblygu amrywiaeth o sgiliau awyr agored cysylltiedig â champau, gwaith maes, fforio a theithiau.
- yn dangos cynnydd yn eu mentrusrwydd, arloesedd, brwdfrydedd, chwilfrydedd, annibyniaeth, cyfrifoldeb, dyfalbarhad, dycnwch ac ymroddiad
- yn datblygu eu gallu mewn sgiliau allweddol h.y. mewn cyfathrebu, datrys problemau, creadigrwydd, meddwl yn dadansoddol, arweinyddiaeth a chydweithio
- yn dysgu gwerthfawrogi'r budd sydd i'w gael o ymarfer corff, a gwerth gydol-oes cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden iachus ac mewn trafod a myfyrio
- yn dangos cymhelliant ac awydd cynyddol i ddysgu ar eu liwt eu hunain wybodaeth a sgiliau sy'n hybu datblygiad a llwyddiant mewn agweddau eraill o'u datblygiad personol – yn tyfu'n ddinasyddion bodlon, gyda chonsyrn ac agwedd gyfrifol tuag at eu cyd-ddyn, eu cymdeithas a'u hamgylchedd naturiol
- yn ehangu eu gorwelion gan agor eu hunain i ystod ehangach o gyfleoedd bywyd a chyflogaeth

**Wrth ddarparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol, mae gofyn bod y cyrff, grwpiau ac unigolion sy'n darparu, yn sicr o'r deilliannau a'u gweledigaeth ehangach ar gyfer dysgu awyr agored.**







# Creu gweledigaeth

**Mae rheolwyr, staff hyfforddi a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol:**



- yn cydnabod yr hyn gall ddysgu awyr agored ei gyfrannu at les cyffredinol pobl ifanc
- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o'r hyn gall pobl ifanc ei gyflawni drwy ddysgu awyr agored
- yn esbonio deilliannau ac effaith dysgu awyr agored ar gymryd rhan, cynnydd a chyrhaeddiad mewn ffordd y gall pawb cysylltiedig ei ddeall
- yn adolygu'r deilliannau ac yn dathlu llwyddiannau'r bobl ifanc
- yn annog y bobl ifanc i gymryd rhan yn annibynnol wrth iddyn nhw symud drwy eu hieuenctid a thyfu'n oedolion



# Gweithredu'r weledigaeth

**Mae rheolwyr, staff hyfforddi a gweithwyr cynorthwyol sy'n gyfrifol am ddysgu awyr agored o ansawdd rhagorol:**

- yn ymwybodol o bwysigrwydd drwyddi-draw gwella llesiant pob un plentyn a pherson ifanc
- yn greadigol wrth drefnu amser, staff, offer ac adnoddau ar gyfer galluogi pobl ifanc i ddatblygu a llwyddo
- yn annog ac yn cefnogi'r staff ac yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar eu cyfer
- yn gwrando ar yr hyn sydd gan y bobl ifanc i'w ddweud ac yn rhoi sylw iddo
- yn cynnwys rhieni/gofalwyr y plant a'r bobl ifanc, yn gwrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddweud ac yn rhoi sylw iddo
- yn monitro effaith y dysgu awyr agored er mwyn sicrhau cyflawni'r weledigaeth
- yn rheoli'r ddarpariaeth yn y fath fodd ag i sicrhau y bydd yn gynaliadwy yn y tymor hir
- yn creu amgylchedd ar gyfer y bobl ifanc sydd yn ddiogel, yn groesawus ac yn fuddiol iddyn nhw
- yn annog ac yn datblygu arweinwyr, gwirfoddolwyr a'r gweithwyr cynorthwyol
- yn cydweithio'n effeithiol mewn partneriaethau â phobl, grwpiau a chyrff eraill (gweler tudalen 24)

# Ysbrydoli pobl ifanc i ddysgu ac i gyrraedd nodau

**Mae'r staff sy'n gyfrifol am ddysgu awyr agored o ansawdd rhagorol:**

- yn ymwybodol o bwysigrwydd drwyddi-draw gwella llesiant pob un plentyn a pherson ifanc
- yn frwdfrydig ac yn ymroddedig
- yn darparu model ymddygiad cadarnhaol
- yn dangos bod ganddyn nhw hyder yng ngallu pobl ifanc i wneud cynnydd a llwyddo
- yn gwrando ar y bobl ifanc ac yn dangos gwerthfawrogiad o'r hyn maen nhw'n ei ddweud ac yn ei wneud
- yn hybu dyheadau'r bobl ifanc
- yn ymfalchio yn llwyddiannau'r bobl ifanc ac yn eu dathlu
- yn datblygu eu harbenigedd eu hunain fel arweinwyr a hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored
- yn ysbrydoli cysylltiad â'r amgylchedd naturiol a pharch tuag ato







# Helpu pobl ifanc i ddysgu ac i gyrraedd nodau

**Mae'r staff sy'n gyfrifol am ddysgu awyr agored o ansawdd rhagorol:**

- i rannu a thrafod â'r bobl ifanc yr hyn mae disgwyl iddyn nhw ei gyflawni, a'u cynnwys nhw yn y proses o osod nodau
- i ddwyn i ystyriaeth yr hyn mae'r bobl ifanc wedi ei ddysgu eisoes, ac i adnabod camau nesaf eu cynnydd
- i ddarparu gweithgareddau perthnasol mewn amgylcheddau sy'n diddori, yn herio ac yn cymell y bobl ifanc
- i ddarparu cyfleoedd i'r bobl ifanc adolygu a gwerthuso eu cynnydd eu hunain a'u cynnydd ei gilydd
- i roi cyngor a chefnogaeth i'r bobl ifanc fydd yn ganllaw i'w dysgu ac yn gwella eu llesiant, gan roi amser iddyn nhw feddwl, myfyrio a dod i benderfyniadau drostynt eu hunain
- i wneud defnydd effeithiol o'r amser, staff, offer ac adnoddau sydd ar gael
- i sicrhau bod amgylchedd pob gweithgaredd yn ddiogel tra'n galluogi'r bobl ifanc i ddeall ac asesu'r risg sydd ynglŷn â'r weithgaredd ac i drosglwyddo'r sgil hwnnw i agweddau eraill o'u bywydau
- i fod â chynllun gweithredu eglur sy'n gosod allan yr hyn sydd angen i bawb ei wneud er mwyn gwireddu gweledigaeth yr ysgol, clwb, canolfan ac ati, ar gyfer dysgu awyr agored





# Deilliant 1 > mwynhad

**Y bobl ifanc yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, antur a her.**



## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored – yn gwenu'n aml!
- yn dymuno ailadrodd profiad/gweithgaredd yn syth neu ar ôl ei adolygu a'i drafod
- yn dewis ohonynt eu hunain i gymryd rhan mewn gweithgaredd ac i gymryd rhan lawn ynddi
- yn cymryd rhan o'u gwirfodd ac yn eu hamser hamdden
- yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau dewisol/anorfodol
- yn frwdfrydig a chadarnhaol wrth drafod eu profiadau
- yn annog eu ffrindiau i gymryd rhan, ac yn awyddus i wybod sut a lle i wneud mwy (e.e. drwy ymuno â chlwb)
- yn cymryd rhan lawn ymhob agwedd o brofiad preswyl oddi cartref
- yn dymuno mynd eto i ganolfan addysg/weithgareddau neu glwb a datblygu ymhellach eu gallu yn y gweithgareddau oedd ar gael
- yn mynychu clwb/canolfan ieuenctid a'i weithgareddau'n rheolaidd





**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**

# Deilliant 2 > hyder a chymeriad





**Y bobl ifanc yn datblygu eu hyder a'u cymeriad drwy ymgymryd â gweithgareddau heriol a llwyddo ynddyn nhw**

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn gorchfygu eu hofnau wrth ymgymryd â gweithgareddau heriol
- yn dymuno rhoi ail gynnig ar weithgaredd oedd yn her iddyn nhw'r tro cyntaf
- yn datblygu gwydnwch drwy ddyfalbarhau lle gynt roedd ganddyn nhw ofn methu
- yn falch o'r hyn maen nhw wedi ei gyflawni
- yn dymuno symud ymlaen i'r her nesaf
- yn siarad yn agored am eu llwyddiannau a'u methiannau
- yn gadarnhaol ynglŷn â nhw eu hunain – ag agwedd 'mynd amdani'
- yn gymdeithasol fwy hyderus – 'yn dod allan o'u cragen'
- yn teimlo bod ganddyn nhw gyfraniad cadarnhaol i'w wneud i lwyddiant eu grŵp, clwb neu ysgol
- yn gallu adnabod yr hyn ynddyn nhw sydd ag angen ei newid neu ei addasu er mwyn iddyn nhw allu delio â heriau newydd yn y maes awyr agored ac yn eu bywydau'n gyffredinol

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**



**"Mae yna gorff gynyddol o ymchwil sy'n cysylltu mudoledd cymdeithasol â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol – sy'n amrywio o empathi a'r gallu i greu a chynnal perthynas i'r gallu i ymroi, ynghyd â gwydnwch meddyliol, oedi boddhad a hunan-reolaeth. Mae pob un o ddarganfyddiadau'r ymchwil yma'n arwain i'r un casgliad: bod cymeriad yn bwysig.**

Y Maniffesto Cymeriad a Gwydnwch, 2013, t.4, Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Fudoledd Cymdeithasol

# Deilliant 3 > iechyd a lles

**Y bobl ifanc yn dysgu gwerthfawrogi'r budd sydd i'w gael o ffitrwydd corfforol a pha mor werthfawr ydi cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden iachus ar hyd eu bywyd.**



**"Felly mae ymwneud fwy a mwy â'r amgylchedd naturiol drwy'r system addysg yn gallu gwella sawl deilliant iechyd, er enghraifft, cynyddu gweithgarwch corfforol, helpu delio â gordewdra pobl ifanc a gwella eu llesiant; mae ganddo hefyd y potensial i fod o les i'w hiechyd meddwl.**

Allen a Balfour, 2014, t.21, Natural solutions to tackling health inequalities

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn cadw'n ffit drwy ymarfer eu cyrff yn rheolaidd
- â meddwl uchel ohonyn nhw eu hunain (hunan-ddelwedd gadarnhaol)
- yn siarad am y budd iechyd sydd i'w gael o gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored corfforol
- yn mabwysiadu ffordd o fyw iach, yn cynnwys bwyta'n iach a phriodol i ofynion eu gweithgareddau
- yn deall y peryglon i'w hiechyd a'u ffitrwydd sy'n deillio o ysmygu, alcohol a chyffuriau, ac yn byw bywyd sy'n esiampl i bobl eraill
- yn cerdded neu'n beicio, lle mae hynny'n bosibl ac yn ddiogel, neu'n gwneud ymarfer corff o fath arall yn rheolaidd
- yn dymuno parhau â'u diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored ar ôl gadael yr ysgol a thyfu'n oedolion



- yn ymuno o'u pen a'u pastwn eu hunain â chyrsiau awyr agored dilynol pan fo'r rheiny ar gael
- yn deall faint o ymarfer corff sydd ei angen i barhau'n ffit ac iach
- yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng ffitrwydd corfforol a lles emosiynol

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**





> Mae treulio cyfnod preswyl oddi cartref yn gyfle i brofi byw gyda phobl eraill. Mae o'n brofiad sy'n gallu trawsnewid perthynas a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn a chymuned yn y staff a'r myfyrwyr. Bu i'n gwerthuswyr ganfod fod effaith gadarnhaol yr ymdeimlad cymunedol yma'n ategu ystod eang o ddeilliannau dysgu a chymdeithasol, a hynny am yn hir ar ôl i'r myfyrwyr a staff ddychwelyd i'r ysgol.

Sefydliad Paul Hamlyn 2015 Learning Away – Brilliant residentials and their impact on children, young people and schools

# Deilliant 4 >

# ymwybyddiaeth gymdeithasol ac emosiynol

4

**Y bobl ifanc yn datblygu ymwybyddiaeth o'u gwerth a'u lle yn y gymdeithas ynghyd â gwerthfawrogiad o'u cyfraniad a'u llwyddiannau eu hunain a rhai pobl eraill.**



## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn dysgu adnabod eu cryfderau eu hunain a rhai pobl eraill, ynghyd ag agweddau y gellid eu datblygu, tra'n gwerthfawrogi cyfraniad pobl eraill
- yn fodlon rhoi eu ffydd mewn pobl eraill a derbyn eu cefnogaeth, a hefyd yn gweld pan fydd angen helpu rhywun arall a bod yn barod i'w helpu
- yn amyneddgar a pharchus o bobl eraill, ac yn herio ymddygiad annoddefgar pan fo'r angen
- yn deall effaith eu hymddygiad ar bobl eraill





- yn adnabod ac yn addasu er gwell unrhyw ymddygiad sy'n effeitho'n andwyol ar bobl eraill
- yn adnabod ac yn cymeradwyo llwyddiannau pobl eraill, waeth sut bydd y llwyddiannau hynny'n cymharu â'u llwyddiannau nhw eu hunain
- yn datblygu ac yn gwerthfawrogi cyfeillgarwch pobl
- yn ymgymryd â chyfrifoldebau cynllunio a threfnu, gan weithredu fel arweinwyr iau
- yn cymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill
- yn parchu gofod preifat pobl eraill

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**



# Deilliant 5 >
# ymwybyddiaeth o’r amgylchedd

**Y bobl ifanc yn dod yn fwyfwy ymwybodol o’r amgylchedd naturiol, ac yn deall pwysigrwydd cadwraeth a datblygiad cynaliadwy.**



**…mae potensial y cyfraniad y gall dysgu awyr agored ei wneud i ddatblygiad agweddau at gynaliadwyedd a gofal am yr amgylchedd yn amlwg a sylweddol.**

Beth Christie, 2012, The impact of outdoor learning on attitudes to sustainability: A review of literature. Y Cyngor Astudiaethau Maes a Phrifysgol Caeredin

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi’n gweithio â nhw:

- yn cael mynediad rheolaidd i’r amgylchedd awyr agored fel adnodd dysgu
- yn cael profi amrywiaeth o wahanol amgylcheddau dan amgylchiadau gwahanol







- yn deall effaith gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd naturiol
- yn dangos gofal, drwy eu hymddygiad eu hunain, o’r amgylchedd naturiol (e.e. gweithgareddau hamdden gwyrdd, ymadael heb adael hoel)
- yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwriaethol
- yn datblygu diddordeb pellach mewn materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy
- yn gwerthfawrogi’r amgylchedd naturiol ac yn cael eu hysbrydoli ganddo (e.e. mewn gwaith llafar neu ysgrifenedig, gwaith celf neu ffotograffiaeth)
- yn profi ac yn parchu mor rymus ydi’r byd naturiol (e.e. tonnau, gwynt, afonydd)
- yn deall effaith eu gweithgareddau awyr agored ar yr amgylchedd naturiol a’r economi leol
- yn cael dysgu rhyfeddu at harddwch naturiol amgylcheddau gwyllt

**Os ydych chi’n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai’r rhan fwyaf o’ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu’n symud tuag at gyflawni’r rhan fwyaf o’r dangosyddion uchod.**

# Deilliant 6 > sgiliau gweithgaredd

**Y bobl ifanc yn dysgu ac yn datblygu ystod o sgiliau siecomodurol fydd yn eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, hamddena a fforio.**

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn datblygu sgiliau corfforol y byddan nhw'n eu haddasu a'u cymhwyso'n effeithiol i weithgareddau awyr agored
- yn datblygu galluoedd meddyliol perthnasol (e.e. dycnwch, cyd-weithredu, gwydnwch)
- yn dysgu ac yn datblygu gwybodaeth a sgiliau technegol priodol
- yn gwybod sut i wisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau awyr agored
- yn deall sut i sicrhau y byddan nhw'n gyfforddus pan allan mewn gwahanol amgylcheddau
- yn cydnabod gwerth hyfforddiant ac ymarfer wrth ddatblygu sgiliau a gwella perfformiad
- yn cydnabod gwerth cystadlu fel sbardun i berfformiad o safon uchel
- â pheth dealltwriaeth o hanes ac egwyddorion gweithgareddau a champau awyr agored a hamdden
- yn ymateb yn gadarnhaol dan amgylchiadau heriol (e.e. yn y tywyllwch, pan fydd y tywydd yn troi'n ddrwg)

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**









**"Mae cael y cyfle i fynd i ganwio pan oeddwn i'n blentyn wedi golygu cymaint i mi. Mi fyddwn i wrth fy modd yn ymarfer, yn magu sgiliau, ac yn cael y cyfle i deithio a phrofi pethau nad oeddwn i erioed wedi eu gwneud o'r blaen – yn arbennig felly'r profiad o badlo ar afonydd cyflym a cheiriog.**

David Florence, enillydd dwy fedal Olympaidd



# Deilliant 7 >
# datblygiad personol

**Y bobl ifanc yn fwy bodlon mentro a gweithio heb gymorth, ac yn fwy cyfrifol, dyfal, dygn ac ymroddgar.**

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio eu gweithgareddau awyr agored
- yn cyrraedd yn brydlon, gyda'r offer priodol ac yn barod i gymryd rhan
- yn ymgymryd â thasgau priodol yn fwyfwy annibynnol a gyda'r lleiafswm angenrheidiol o orychwyliaeth
- yn dangos mentergarwch wrth oresgyn rhwystrau



- yn gweithio tuag at ymgymryd ag antur/her awyr agored di-gymorth (e.e. taith wersylla gwyllt)
- yn gweithio'n galed i gwblhau gweithgareddau sy'n gorfforol neu'n emosiynol heriol
- yn gosod nodau realistig iddyn nhw eu hunain, dros gyfnod estynedig, gan gadw eu sylw ar y nod nes eu bod nhw'n llwyddo i'w gyrraedd
- yn dyfalbarhau'n hwyliog yn wyneb sefyllfaoedd sy'n peri anesmwythyd (e.e. blinder neu dywydd gwael)
- yn cymryd cyfrifoldeb dros eu diogelwch eu hunain a phobl eraill
- yn ymgymryd â swyddi cyfrifol (e.e. fel aelodau iau pwyllgor)
- yn ofalus o'u heiddo, gofod a glendid personol

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**

**"Mae'r budd potensial sydd gan yr awyr agored a chynefinoedd antur gwyllt i'w gynnig i bobl ifanc yn fawr... Mae datblygu hunan-ddelwedd gadarn, hyder yn eich gallu eich hun a'r profiad o ddelio ag ansicrwydd, yn gallu bod yn gymorth o bwys i bobl ifanc yng nghyswllt datblygu a gwella eu sgiliau cymdeithasol ac wrth ddod i gyffyrddiad â'r byd ehangach.**

Ward Thompson et al 2006 *Free range teenagers: the role of wild adventure space in young people's lives.* Canolfan ymchwil OPENspace: Coleg Celf Caeredin a Phrifysgol Heriot-Watt.









“Mae gweithio yn yr awyr agored yn cynnig cyfle rhagorol i blant ddefnyddio ystod eang o sgiliau a galluoedd nad ydyn nhw ddim bob amser i'w gweld yn yr ystafell ddosbarth. Mae gweld sgiliau o'r fath ar waith yn gallu achosi newid sylfaenol ym marn cyfoedion, athrawon a'r plentyn ei hun o sut un ydi o. Fe all hynny yn ei dro arwain at newidiadau mawr yn nisgwyliadau a chyrhaeddiad y plentyn.

Curriculum for Excellence for Outdoor Learning. Learning and Teaching Scotland

# Deilliant 8 > sgiliau bywyd

**Y bobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu sgiliau allweddol h.y. cyfathrebu, datrys problemau, arweinyddiaeth a gwaith tîm.**



## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn talu sylw i gyfarwyddiadau (e.e. ynghylch diogelwch) ac yn eu dilyn
- yn gallu cynnig syniadau
- yn deall pa mor bwysig ydi hi i dalu sylw i syniadau a barn pobl eraill
- yn gallu disgrifio eu profiadau ar lafar, ar ddu a gwyn, drwy fideo neu TG
- yn gallu cyd-weithio i gynllunio gweithgareddau a datrys problemau
- yn fodlon rhoi cynnig ar fwy nag un syniad er mwyn darganfod un sy'n ateb y diben
- yn gallu amrywio ac addasu'r hyn maen nhw'n ei wneud er mwyn ymateb i newid yn yr amgylchiadau
- yn deall sut mae aelodau tîm yn ymgymryd â gwahanol swyddogaethau er mwyn helpu'r tîm i lwyddo
- yn gallu ymgymryd â chyfrifoldeb a rôl arweinydd pan fo hynny'n briodol
- yn fodlon camu o'r neilltu er mwyn i bobl eraill gael arwain
- yn gallu helpu eu grŵp ddod i benderfyniad tîm ac yna gweithredu'r penderfyniad
- yn ymgymryd ar lefel briodol â hyfforddiant sgiliau goroesi a chymorth cyntaf

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**

# Deilliant 9 > cynnydd mewn cymhelliad ac awydd i ddysgu

**Y bobl ifanc yn cynyddu yn eu cymhelliad ac awydd i ddysgu, a bod hyn yn ei dro'n cyfrannu at lefel uwch o gyrhaeddiad a chynnydd mewn agweddau eraill o'u datblygiad.**





**"Mewn prawf diweddar a gynhaliwyd gan yr Education Endowment Foundation, fe ddysgwyd dull ysgrifennu strwythuredig i ddisgyblion ysgol oedd wedi bod ar deithiau, dull oedd yn defnyddio'r teithiau fel ffynhonell syniadau. Fe wnaeth y disgyblion y cyflwynwyd y dull yma iddyn nhw gynnydd o naw mis ar gyfartaledd o'u cymharu â'r grŵp safonol na chafodd fynd ar deithiau.**


Swyddfa'r Cabinet, 2014, What Works Well
www. educationendowmentfoundation.org.uk

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc yn byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn anelu bob amser at wneud eu gorau
- eisoes, neu'n datblygu i fod, yn ddysgwyr sy'n cymell eu hunain
- yn awyddus i gael profiadau dysgu sy'n newydd ac yn heriol
- â pherthynas dda, neu sy'n gwella, â'u hathrawon, gweithwyr ieuenctid neu arweinwyr
- yn ymddwyn yn dda neu â'u hymddygiad yn gwella
- yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored
- yn dangos ymrwymiad cyson, neu gynyddol, i'r gweithgareddau a'r dysgu
- yn cyrraedd lefel uwch o gyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm a thu hwnt
- yn cymryd rhan mewn nifer o wahanol agweddau o fywyd yr ysgol/clwb
- yn dwyn ysbrydoliaeth o'u gweithgareddau awyr agored i mewn i waith eu pynciau eraill (e.e. ysgrifennu creadigol neu gelf)

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**









# Deilliant 10 >
# ehangu gorwelion

**Y bobl ifanc yn ehangu eu gorwelion ac yn agor eu hunain i ystod ehangach o gyfleoedd a dewisiadau bywyd a chyflogaeth, a gwahanol ffyrdd o fyw.**

## Dangosyddion

Bod y bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio â nhw:

- yn gweld bod dewis ehangach o lwybrau gyrfa ar gael iddyn nhw ac yn siarad yn gadarnhaol amdanyn nhw
- yn deall mor atyniadaol i gyflogwyr ydi ymrwymiad a'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth
- yn cael profi a dod yn fwy ymwybodol o wahanol amgylcheddau a diwylliannau
- yn ymwybodol o gysyniad cydbwysedd mewn bywyd a gwaith ac o sut i'w asesu
- yn dod yn fwy agored eu meddwl
- yn ymateb i gyfleoedd i wirfoddoli i helpu pobl eraill
- yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a mynd ar deithiau ar ôl gadael yr ysgol neu glwb
- yn anelu'n uwch o hyd, gan fod ag uchelgais i lwyddo hyd eithaf eu potensial
- yn gwerthfawrogi mor berthnasol i'r gweithle ydi sgiliau allweddol megis cyfathrebu a gwaith tîm
- yn ymwybodol, lle'n berthnasol, o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector awyr agored ac o sut i gael atyn nhw

**Os ydych chi'n darparu dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol fe ddylai'r rhan fwyaf o'ch bobl ifanc fod yn cyflawni neu'n symud tuag at gyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion uchod.**



**"Mae llwyddo mewn swydd yn dibynnu ar fwy na llwyddiant academaidd yn unig – mae bod â sgiliau cymeriad megis dyfalbarhad a phenderfyniad yn bwysig hefyd. Yn cyfrif hefyd mae profiadau eraill, yn cynnwys profiad gwaith, gweithgareddau all-gwricwlaidd, a chyngor gyrfaoedd.**

Y Comisiwn Mudoledd a Thlodi Plant, 2014, Cracking the code: how schools can improve social mobility

# Gwella ansawdd drwy gydweithio

## 1. Creu partneriaethau effeithiol

**Does yna ddim un ffordd ddi-ffael i gyflwyno dysgu awyr agored a chael pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Ond mae gan y cyrff, llefydd a rhaglenni canlynol – rhai a allai'n hawdd fod yn gweithredu ar eu pennau eu hunain neu hyd yn oed yn cystadlu â'i gilydd – i gyd gyfraniad pwysig i'w wneud i'r gwaith yma:**

- Rhaglenni chwaraeon ysgol
- Gweithgareddau antur wedi eu trefnu a'u cynnal gan ysgolion, yn cynnwys teithiau antur
- Dysgu a gweithgareddau chwarae awyr agored wedi eu harwain gan athrawon
- Addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd ac economaidd
- Yr Urdd
- Canolfannau Dysgu awyr agored, preswyl a dydd, eraill
- Clybiau ieuenctid
- Clybiau chwaraeon
- Gwobrau dysgu awyr agored
- Ymgyrchoedd cenedlaethol



**Mae gwybod am waith pawb arall a chydweithio'n bwysig os ydi plant a phobl ifanc i'w datblygu'n effeithiol ac i'w llawn botensial ymhob un o'r agweddau corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac economaidd. Mae cysylltu a chydweithio rhwng ysgolion, cyrff a chlybiau gweithgareddau ac ieuenctid yn ei gwneud yn bosibl i bobl ifanc:**

- wneud y gorau o'u profiadau a'u dysgu yn y gwahanol lefydd yma
- teimlo'n gyfforddus a hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
- bod yn fwy tebygol o barhau â gweithgareddau awyr agored ar ôl gadael yr ysgol
- rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, mewn amgylcheddau awyr agored newydd a heriol
- cysylltu eu profiadau mewn un maes â phrofiadau newydd mewn maes arall

### Mae ysgolion, cyrff a chlybiau awyr agored yn cydweithio'n dda pan fyddan nhw:

- yn gweithio gyda'i gilydd ymhell cyn, yn ystod ac ar ôl, cynnal rhaglen o weithgareddau dysgu awyr agored
- yn parchu eu hamcanion a'u hethos ei gilydd, ac yn fodlon eu haddasu er mwyn creu set o nodau ac amcanion sy'n gyffredin i'r naill a'r llall, sy'n gorgyffwrdd neu'n ategu ei gilydd
- yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc o bob cefndir, waeth beth ydi natur y cefndir hwnnw
- yn adnabod egwyddorion cyffredin ac yn cytuno ar yr hyn maen nhw'n ei ddisgwyl o'r bobl ifanc ac yng nghyswllt y dysgu
- yn cynnwys y rhieni a'r gofalwyr, ac yn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â nhw, yn yr un ffordd â'i gilydd
- yn galluogi'r bobl ifanc i adeiladu ar yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu'n barod mewn cyd-destunau eraill
- yn cytuno ar y drefn ar gyfer cofnodi, asesu a dathlu gwaith y bobl ifanc

### Pan fydd gwahanol gyrff yn dod at ei gilydd fel partneriaid i ddarparu dysgu awyr agored, mae angen iddyn nhw:

- fod yn annog yr holl arweinwyr a staff dysgu i gyfrannu yn yr un ffordd effeithiol i bob agwedd o'r gwaith
- annog a galluogi staff a staff sy'n ymweld i rannu o'u profiad ac arbenigedd a dysgu oddi wrth ei gilydd – eu dulliau hyfforddi, arddull addysgu ayb
- cytuno, a deall yn iawn, ynglŷn â phwy o staff y gwahanol bartneriaid sy'n gyfrifiol am wneud beth, a gwneud yn siŵr fod y bobl ifanc yn cael gwybod a deall hynny hefyd
- cytuno ar gyfleoedd dysgu y mae modd eu dilyn i fyny wedyn gyda'r plant a phobl ifanc



# Beth sy’n gwneud cysylltiad yn gysylltiad effeithiol?

### Pan fydd cyrff yn cydweithio’n dda maen nhw:

- yn siarad â’i gilydd ac yn parchu cyfraniad y naill a’r llall
- yn hyrwyddo gweithgareddau’r naill a’r llall
- yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc o bob cefndir, waeth beth ydi’r cefndir hwnnw
- yn parchu gwaith a ffordd o weithio’r naill a’r llall
- yn mynd ati i gynnwys y rhieni a’r gofalwyr yn yr un ffordd â’i gilydd, ac yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw
- yn adeiladu ar yr hyn mae’r bobl ifanc wedi ei ddysgu o’r blaen mewn llefydd eraill
- yn cydweithio i ddatblygu arbenigedd yn y meysydd dysgu a hyfforddi
- yn rhannu safleoedd, offer ac adnoddau
- yn deall trefn a fframwaith weithredu’r naill a’r llall (e.e. swyddogaeth a chyfrifoldebau ymgynghorwyr addysg awyr agored awdurdodau lleol a chyrff rheoli cenedlaethol)

# Deilliannau partneriaethau effeithiol



### Pan fydd partneriaid yn cydweithio’n dda, bydd y bobl ifanc:

- yn deall sut mae eu profiadau yn yr ysgol ac i ffwrdd o’r ysgol yn cyd-fynd â’i gilydd, ac yn gallu gweithio’n hyderus yn y gwahanol sefyllfaoedd
- yn teimlo’n gyfforddus yn gweithio gyda ac ynghanol pobl o bob math a chefndir, oed a gallu
- yn gallu datblygu eu sgiliau mewn sefyllfaoedd newydd a heriol
- yn gallu bod yn gall yn eu hymroddiad i weithgareddau eu hysgol neu glwb, ac yn eu hymrwymiad iddo
- yn gallu trosglwyddo gwersi eu dysgu o sefyllfa i sefyllfa, a’u cymhwyso i’w bywydau bob dydd
- yn tyfu’n ddinasyddion egwyddorol, hyddysg, sy’n gwybod sut i reoli’r amgylchedd mewn modd gynaliadwy, rŵan ac yn y dyfodol
- yn gallu cyfrannu at fywiogrwydd diwylliant Cymru a ffyniant yr iaith Gymraeg





# I grynhoi

**Mae'r dystiolaeth sy'n dangos yr effaith gadarhaol mae dysgu awyr agored yn ei gael ar bobl ifanc yn ddiamheuol, a lle mae'r dysgu hwnnw o ansawdd rhagorol mae o'n gallu newid bywydau. I lawer o bobl, mae bod allan yn yr awyr agored ynddo'i hun yn gallu bod o fudd anferthol i'w hiechyd a'u llesiant, ysgogi eu chwilfrydedd a datblygu eu gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas. Pan fydd profiadau o'r fath yn rhan o raglen drefnus a chynyddol sy'n cefnogi dysgu integredig mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, mae'r effaith yn fwy byth.**

Mae'r canllaw'n gosod allan 5 thema sy'n nodweddiadol o nifer fawr o brofiadau dysgu awyr agored. Mae dysgu awyr agored yn fodd i gynnig amgylchedd ddysgu byd go iawn lle mae posib datblygu sgiliau newydd ac ymarferol, ac wedi ei gysylltu erioed â datblygu hyder a chymeriad. Mae o hefyd yn sefyllfa ac amgylchedd lle gall pobl ifanc reoli risg mewn modd ymarferol. Ar ben hynny i gyd mae o'n cynnig profiadau gwirioneddol gofiadwy.











Mae 10 deilliant allweddol dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol wedi eu nodi yn y canllaw ynghyd â'r dangosyddion sydd eu hangen i dystiolaethu i bob un. Dydi'r deilliannau ddim i fod yn erfyn ymchwil meintiol ond yn hytrach yn gymorth i adnabod a deall yr hyn fyddai effaith gadarnhaol dysgu awyr agored ar bobl ifanc. Mae posib defnyddio'r dangosyddion i lunio 'rhestrau gwirio' syml ar gyfer adnabod dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol; bydd cynnwys pobl ifanc yn y proses o lunio 'rhestrau' o'r fath yn ychwanegu gwerth at y rhestrau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol.

Mae bod â gweledigaeth eglur o'r hyn sydd i'w gyflawni wrth drefnu dysgu awyr agored yn fan cychwyn cyflwyno dysgu awyr agored o ansawdd rhagorol, ac mae cynnwys pobl ifanc yn gynnar yn y proses trefnu yn hanfodol. Mae datblygu cydweithio a phartneriaethau effeithiol yn agwedd arall hanfodol o'r gwaith trefnu. Hwn mewn llawer ffordd ydi'r her fwyaf a mwyaf allweddol oherwydd dim ond pan fydd partneriaid yn cydweithio'n effeithiol fydd hi'n bosibl datblygu holl botensial dysgu awyr agored a'i gymhwyso i ddysgwyr a'u bywyd bob dydd.



**"Mae addysg yn ei ystyr ehangach yn golygu mwy na dim ond cyflwyno cwricwlwm. Mae o'n golygu rhoi cyfle i blant ddatblygu eu sgiliau bywyd. Mae o'n golygu datblygu eu hyder. Mae o'n golygu meithrin gwydnwch a chyfrifoldeb. A – rhag i ni anghofio – mae o'n golygu profi a mwynhau'r cyffro sydd i'w gael o fentro allan i'r byd go iawn, i ganol yr holl ansicrwydd, syndod, cyffro a hwyl sydd i'w cael yno.**

Tim Gill, 2010, Nothing Ventured… Balancing risks and benefits in the outdoors, Cyngor Awyr Agored Lloegr, t.22.

# Gwybodaeth bellach

**Mae'r gwefannau canlynol yn cynnig gwybodaeth all fod o help i chi gynnal neu ategu ansawdd y dysgu awyr agored y byddwch chi'n ei gyflwyno yn eich ysgol, clwb, canolfan awyr agored a thu hwnt.**

**Gwybodaeth gyffredinol...**

Gwaith y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) a lle i gael hyd i'ch ymgynghorydd addysg awyr agored lleol: **www.oeap.info**

Canllawiau cenedlaethol ar gyfer ymweliadau oddi ar safle a dysgu y tu allan i'r dosbarth: **www.oeapng.info**

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru: **http://learning.gov.wales/resources/improvementareas/curriculum/?lang=cy**

Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru: **www.walescouncilforoutdoorlearning.org**

Dysgu Awyr Agored Cymru/Outdoor Learning Wales (OLW). Rhwydwaith genedlaethol wedi ei hwyluso gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n amcanu at gynyddu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru: **www.outdoorlearningwales.org**

Yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur / Adventure Activities Licensing Authority: **www.hse.gov.uk/aala**

Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwaith yr asiantaeth ydi trefnu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ein gwlad. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd Cymru er mwyn gwella llesiant cyffredinol a sicrhau gwell dyfodol i bawb: **https://naturalresources.wales/?lang=cy**

Y Parciau Cenedlaethol: **http://www.nationalparks.gov.uk**

RSPB Cymru: **www.rspb.org.uk/forprofessionals/teachers**

Every Child Outdoors Wales: **https:ww2.rspb.org.uk/Images/everychild_wales_eng_tdm9-314324.pdf**

Connecting with Nature: **https://www.rspb.org.uk/our-work/our-positions-and-casework/our-positions/nature-education/research**

Gwaith y Sefydliad Dysgu Awyr Agored ydi datblygu safonau ar gyfer dysgu awyr agored, annog pobl i ymgymryd ag addysg awyr agored, ac i ddarparu trefn ddatblygu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr yn y maes: **www.outdoor-learning.org/wales-cymru**

Yr 'Education Endowment Fund' – Deunyddiau dysgu antur awyr agored: **https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/outdoor-adventure-learning/**

Paul Hamlyn Foundation, Learning Away: **https://www.phf.org.uk**

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: **www.nationaltrust.org.uk/what-we-do/big-issues/nature-and-outdoors/ natural-childhood**

Arolygu ysgolion a chanolfannau addysg awyr agored yr awdurdodau lleol: **www.estyn.gov.uk**

Mentro'n Gall Cymru: www.adventuresmartwales.com

**Gwybodaeth am ganolfannau gweithgareddau/addysg awyr agored...**

Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored / The Association of Heads of Outdoor Education Centres: **www.ahoec.org**

The British Activity Providers Association: **www.thebapa.org.uk**

**Ar gyfer gwaith maes...**

Y Cyngor Astudiaethau Maes / Field Studies Council: **www.field-studies-council.org**

Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Astudiaethau Maes / National Association of Field Study Officers: **www.outdoor-learning.org**

**Ar gyfer teithiau...**

Young Explorers' Trust: **www.theyet.org**

**Gwybodaeth ynghylch clybiau sy'n aelodau o gyrff rheoli/cyrff cynrychioli cenedlaethol gweithgareddau awyr agored...**

Canŵ Cymru / Canoe Wales: **www.canoewales.com**

The British Orienteering Federation: **www.britishorienteering.org.uk**

Hyfforddi Mynydda: **www.mountain-training.org/cymru**

The British Caving Association: **www.british-caving.org.uk**

The Royal Yachting Association: **www.rya.org.uk**

**Gwobrau cenedlaethol**

Gwobr John Muir: **www.JohnMuirAward.org**

Urdd Gobaith Cymru: **www.urdd.cymru**

Gwobr Dug Caeredin: **www.dofe.org**

Cymdeithas y Sgowtiaid: **www.scouts.org.uk**

Cymdeithas DU y Geidiau: **www.girlguiding.org.uk**

Eco-ysgolion: **https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Category/eco-schools**

Ysgolion Iach Cymru/Healthy Schools Wales: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/ 888/page/82249**





# Rhestr gyfeiriol

**Yn y rhestr ganlynol fe gewch chi lawer o'r dystiolaeth fydd ei hangen arnoch chi i hyrwyddo gwerth a budd dysgu awyr agored. Dydi'r rhestr ond yn ddetholiad bychan o'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y pwnc. Mae'r dystiolaeth mwyaf diweddar i'w chael ar wefan Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru**


1. Llywodraeth Cymru. WG26203. Qualified for Life. A curriculum for Wales – a curriculum for Life (Hyd 2015). Tud. 13
2. Maynard, T. and Waters, J. (2007) Learning in the outdoor environment: a missed opportunity?, Early Years. An International Journal of Research and Development, 27:3,255-265.
3. DEFRA (2011) The Natural Choice: securing the value of nature. www.officialdocuments.gov.uk/document/cm80/8082/8082.asp.
4. All Party Commission on Physical Activity (2014) Tackling Physical Inactivity – A Coordinated Approach. All Party Commission on Physical Activity.
5. Estyn. Active and Experiential Learning (2017). Tud. 28 https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Estyn%20Active%20and%20experiential%20learning_E_Accessible_1.pdf
6. Association for Science Education Outdoor Science Working Group (2011) Outdoor Science. Field Studies Council and Kings College London.
7. Scott, G., Boyd, M. and Colquhoun, D. (2013) Harnessing enthusiasm for biodiversity to enhance the learning experience. Bioscience Education Research Group, Prifysgol Hull.
8. MIKE HARVEY KATRINA RANKINE RONA JENSEN. (2017) Outdoor Learning Hubs – A Scottish Attainment Challenge Innovation Fund Project. Tud. 3. http://www.sapoe.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/Outdoor-Hub-Learning-Report-Dec-2017-V1.pdf
9. Nature to Nurture (2013) 'Outdoor play and emotional well-being'. http://naturetonurture.co.uk/outdoor-playand- emotional-well-being/.
10. Gutman, L.M. and Schoon, I. (2013) The impact of non-cognitive skills on the outcomes for young people. Institute of Education, University of London.
11. Foresight Mental Capital and Wellbeing Project (2008) Final Project report – Executive summary. Government Office for Science, London.
12. Dillion, J. (2011) Understanding the diverse benefits of learning in natural environments. King's College London.
13. Paterson, C., Tyler, R. and Lexmond, J. (2014) Character and Resilience Manifesto. The all party parliamentary group on social mobility.
14. Christie, B. (2012) The impact of outdoor learning experiences on attitudes to sustainability: A review of literature. Prepared for the Field Studies Council.
15. Higgins, P. (2013) Submission given to the Education and Culture Committee on Outdoor Learning, Scottish Parliament, 10 December 2013.
16. Williams, R. (2012) Woven into the fabric of experience: residential adventure education and complexity Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, DOI:10.1080/14729679.2012.731725. http://dx.doi.org/10.1080/14729679.2012.731725.
17. Learning Away: Interim Report, Paul Hamlyn foundation (2013) www.phf.org.uk/curo/downloaddoc.asp?id=889
18. Learning Away: What makes a 'Brilliant Residential'? (2014) Second Interim Evaluation Report summary http://learningaway.org.uk/wp-content/uploads/Learning-Away-Interim-Evaluation- Summary-2-_September-2014.pdf
19. Allan, J., McKenna, J. and Robinson, M. (2008) Building student resilience through first-year outdoor adventure residential experience in higher education. Assessment, Teaching and Learning Journal (Leeds Met) Number 4 (Summer), pp.6–9.
20. Llywodraeth Cymru. Further Steps Outdoors – Guidance (2014). WG21941. Tud. 3.

http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/141013-further-steps-outdoors-en.pdf

21. McElligott, S. (2012) Transformational Leadership behaviours, Astudiaeth PhD – Prifysgol Bangor.
22. Gov.uk Number of children getting enough physical activity drops by 40% (2017) https://www.gov.uk/government/news/number-of-children-getting-enough-physical-activity-drops-by-40
23. Gill, T. (2010) Nothing Ventured… Balancing risks and benefits in the outdoors. English Outdoor Council.

### Y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored

Am wybodaeth ynghylch gwaith y panel, neu er mwyn cael hyd i ymgynghorydd addysg awyr agored, ac i gael copïau pellach o’r canllaw yma ewch i **www.oeap.info**.

### Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â gwaith Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru ewch i **www.walescouncilforoutdoorlearning.org**.

Gyda chefnogaeth:







Wedi ei argraffu ag inc olew llysiau

Dyluniad Cyhoeddiadau FSC

Dysgu Awyr Agored o Ansawdd Rhagorol © Hawlfraint 2018 Y Panel Ymgynghorwyr Dysgu Awyr Agored (OEAP)